**TGAU**

3010N10-1

W25-3010N10-1

**DYDD GWENER, 10 IONAWR 2025 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.

Yn y cerddi, mae'r beirdd **yn sôn am fod mewn lle ar eich pen eich hun am wahanol resymau**.

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol.

Dylech wneud hyn drwy:

- Ysgrifennu am **gynnwys y ddwy gerdd** yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
  - Beth sy'n debyg / gwahanol yn lleoliad a sefyllfa'r unigolion yn y cerddi?
  - Beth yw neges y ddau fardd?
- Edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd** arddull / mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- Nodi pa **un** o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Gweld y Gorwel**

Yn *rehab* y colli nabod – sŵn traed
sy'n troi'r awr ddiddarfod,
sŵn y byw diflasa'n bod.

Yn *rehab*, bod yw'r rheol, – bod drwy'r dydd,
bod drwy'r daith hunanol
wna *druggie'n* dod o'i rigol.

Yn *rehab* o dan label, – yn nheilchion
ergydion ei gawdel
gwrid ei gariad yw gorwel.

Sŵn y dydd yw hi sy'n dod – o'r nosau,
rhanna ias cyfarfod,
y sŵn byw melysa'n bod.

**Aneirin Karadog**

**Gêm**

Mor braf yw sŵn clep drws fy llofft yn cau,
cael suddo'n fy sedd, a'r gêm yn parhau.

Dwi'n dewis fy wyneb, dewis fy myd;
drwy'r swits yn fy llaw, daw'r cyfan i gyd

yn fyw o fy nghwmpas. Y *PS4 –
fy llwyfan fy hunan i wella fy sgôr.

Rwyf fi mewn rhyw storm yn bell, bell i ffwrdd
a llais mam yn floedd fod bwyd ar y bwrdd.

Ymlaen ac ymlaen â'r chwarae fan hyn!
Does ots yn y byd am wynebau syn

fy nheulu o 'nghwmpas. Mae'r nos yn cau,
dwi'n sownd yn fy sedd a'r gêm yn parhau.

**Gwil Tomos**

**Geirfa**
- PS4 – peiriant chwarae gemau

**DIWEDD Y PAPUR**